



**Caring Together  
Western Bay**  
*Health and Social Care Programme*  
**Gofalu Gyda'n Gilydd  
Bae'r Gorllewin**  
*Rhaglen Gofal Iechyd a Chymdeithasol*

## **Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Bae'r Gorllewin**

**23 Tachwedd 2016**

**9:30 – 11:30**

**Adeilad yr Ysgol Reolaeth, Campws y Bae Prifysgol Abertawe**

### **Cofnodion**

#### **Cynrychiolwyr**

<b>Enw</b>	<b>Sefydliad</b>	<b>Blaenlythrennau</b>
Y Cyng. Rob Stewart (Cadeirydd)	Dinas a Sir Abertawe	RS
Yr Athro Andrew Davies (Is- gadeirydd)	BI PABM	AD
Paul Roberts	BI PABM	PaR
Siân Harrop-Griffiths	BI PABM	SHG
Maggie Berry	BI PABM	MB
Steven Phillips	CBS Castell-nedd Port Talbot	SP
Y Cynghorydd Ali Thomas	CBS Castell-nedd Port Talbot	AT
Y Cyng. Huw David	CBS Pen-y-bont ar Ogwr	HD
Y Cyng. Phil White	CBS Pen-y-bont ar Ogwr	PW
Sue Cooper	CBS Pen-y-bont ar Ogwr	SC
Y Cyng. Mark Child	Dinas a Sir Abertawe	MC
Y Cyng. John Rogers	CBS Castell-nedd Port Talbot	JR
Dave Howes	Dinas a Sir Abertawe	DH
Nick Jarman	CBS Castell-nedd Port Talbot	NJ
Amanda Carr	CGGA/Trydydd Sector	AC
Y Cyng. Jane Harris	Dinas a Sir Abertawe	JH
Y Cyng. Hailey Townsend	CBS Pen-y-bont ar Ogwr	HT
Emma Tweed	Gofal a Thrwsio	ET
Rosita Wilkins	Defnyddiwr Gwasanaeth	RW
Pamela Milford	DASA	PM
Debbie Smith	DASA	DS
Sharon Williams	Fforwm Gofal Cymru	SW
Sara Harvey	Rhaglen Bae'r Gorllewin	SH
Louise Fraser-Cole	Rhaglen Bae'r Gorllewin	LFC
<u>Hefyd yn bresennol</u>		
Sara Hayes	BI PABM (Eitem 4 ar yr Agenda)	SHay
Vicky Warner	BI PABM (Eitem 5 ar yr Agenda)	VW

Nichola Echanis	CBS Pen-y-bont ar Ogwr (Eitem 6 ar yr Agenda)	NE
David Wright	CBS Pen-y-bont ar Ogwr (Eitem 6 ar yr Agenda)	DW

## Ymddiheuriadau

Enw	Sefydliad	Blaenlythrennau
Y Cyng. Christine Richards	Dinas a Sir Abertawe	CR
Y Cyng. Peter Richards	CBS Castell-nedd Port Talbot	PR
Phil Roberts	Dinas a Sir Abertawe	PhR
Darren Mepham	CBS Pen-y-bont ar Ogwr	DM
Gaynor Richards	Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot sy'n cynrychioli CGG/y Trydydd Sector	GR
Melanie Minty	Fforwm Gofal Cymru/Y Sector Annibynnol	MM

## Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cysgodol Bae'r Gorllewin

Cyf	Eitem	Cam Gweithredu
1	<b>Croeso a Chyflwyniadau</b> Croesawodd RS bawb i'r cyfarfod. Gwnaed cyflwyniadau. Hysbysodd RS y bwrdd y byddai cofnodion y cyfarfod blaenorol yn cael eu trafod yng nghyfarfod y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi iddo gael ei sefydlu'n ffurfiol. Gofynnodd RS a oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant. Ni dderbyniwyd dim.	
2	<b>Ymddiheuriadau am Absenoldeb</b> Rhoddwyd ymddiheuriadau am absenoldeb fel y nodwyd uchod	
3	<b>Sefydlu Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol BGN</b>	
3.1	Gwahoddodd RS Debbie Smith, Cyfreithiwr y Gyfarwyddiaeth a Pamela Milford, Uwch-gyfreithiwr, DASA, i drafod y trefniadau angenrheidiol ar gyfer sefydlu'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol	
3.2	Esboniodd DS a PM, er mwyn sefydlu'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn ffurfiol, fod angen derbyn y cylch gorchwyl a'r Côt Ymddygiad drafft yn ffurfiol yn ogystal â chytuno ar yr aelodaeth.	
3.3	Trafodwyd aelodaeth arfaethedig y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn ôl rhestr aelodaeth a atodwyd i'r agenda. Mae aelodau ychwanegol y bwrdd yn cynnwys un cynrychiolydd o'r trydydd sector, un cynrychiolydd o'r trydydd sector cenedlaethol ac un cynrychiolydd o'r trydydd sector lleol. Cynrychiolydd sector annibynnol o Fforwm Gofal Cymru. Cynrychiolydd defnyddwyr gwasanaeth o 'Banel Rhanbarthol y	

Dinasyddion a chynrychiolydd gofalwyr.

**Cymeradwywyd y cynrychiolwyr ychwanegol o'r trydydd sector, y sector annibynnol, a'r cynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn ffurfiol gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol heb ddim gwrthwynebiadau. Cytunwyd y gallai dirprwyon fod yn bresennol er mwyn dirprwyo ar gyfer cynrychiolwyr, ond rhaid bod y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi cymeradwyo'r dirprwyon hyn ymlaen llaw.**

- 3.3a Derbyniwyd ceisiadau gan Banel Rhanbarthol y Dinasyddion i gael tri chynrychiolydd defnyddwyr gwasanaeth ar y bwrdd, un o bob ardal leol i gefnogi ei gilydd a darparu ymagwedd 'tîm'. Cytunodd y bwrdd y gallai un cynrychiolydd a dirprwy gyflawni rôl cynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaeth, o Banel y Dinasyddion, a byddai hyn yn cael ei adolygu mewn 6 mis.
- Cynrychiolydd defnyddwyr gwasanaeth panel y dinasyddion i'w adolygu mewn 6 mis a dirprwy i'w nodi yn y cyfamser.**
- 3.3b Derbyniwyd cais gan Fforwm Undebau Llafur Rhanbarthol Bae'r Gorllewin i gael cynrychiolaeth ar y bwrdd. Roeddent wedi cynnig y dylai cynrychiolydd gael ei ddewis gan yr undebau llafur i gynrychioli'r holl undebau llafur yng nghyfarfodydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Cytunwyd bod nifer mawr o aelodau eisoes ar y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a bod angen iddo aros yn hylaw. Er hynny, byddai'r bwrdd yn chwilio am un cynrychiolydd ac un dirprwy o'r undebau llafur ar gyfer y Fforwm Undebau Llafur Rhanbarthol.
- Fforwm Undebau Llafur BGN i ddewis a chynnig cynrychiolydd a dirprwy**
- 3.4 Trafodwyd y Côt Ymddygiad (CY) drafft. Esboniodd DS a PM bod y CY wedi'i ddatblygu gan ddilyn templed amlasiantaeth LIC. Trafodwyd egwyddorion a rôl aelodau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, yn ogystal â phwysigrwydd datganiadau o fuddiant. **Cytunwyd bod rhaid datgan unrhyw ddatganiad o fuddiant ar ddechrau pob cyfarfod; bydd y bwrdd yn cytuno ar unrhyw gamau gweithredu angenrheidiol e.e. os bydd eitem ar yr agenda'n effeithio ar unigolyn, mewn ffordd bersonol neu ragfarnol**
- DS i ddiwygio'r CY i gynnwys datganiadau personol neu ragfarnol a nodwyd**
- 3.4a **Wedi iddo gael ei ddiwygio, cytunwyd y bydd pob aelod o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn llofnodi ffurflen Datganiad o Fuddiant, i'w hadolygu'n flynyddol**
- Datganiadau o Fuddiant i'w hadolygu'n flynyddol**
- 3.5 Trafodwyd y Cylch Gorchwyl drafft a chytunwyd arno, gyda'r ddealltwriaeth y byddai'r adran ar aelodaeth y bwrdd yn cael ei diwygio i gynnwys dirprwyon y Corff Partneriaeth ar gyfer pwyntiau 'e - h', wedi iddynt gytuno ar y dirprwyon.
- Cynnwys aelodau e - h y BPRh yn adran 13 y Cylch**

**Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Bae'r Gorllewin**

Cyf	Eitem	Cam Gweithredu
1	<b>Datganiad o Fuddiannau</b>	
	Gofynnodd RS yn ffurfiol am unrhyw ddatganiadau o fuddiant. Ni dderbyniwyd dim.	
2	<b>Datganiad o Sefyllfa ac Adroddiad Cynnydd BGN</b>	
2.1	Eglurodd SH bod y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi gwneud cais am lunio Datganiad Sefyllfa i adlewyrchu meysydd gweithgarwch allweddol mewn perthynas â'r Ddeddf GCLI a blaenoriaethau'r bartneriaeth. Mae'r Datganiad Sefyllfa wedi bod gerbron Cabinet a BI pob ALL.	
2.2	Rhoddodd SH grynodedb i waith cyfredol, gan arwain y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol drwy'r adroddiad cynnydd.	
2.2a	Gofynnwyd i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ystyried a oedd yn briodol i aelodau'r cynulliad gael eu gwahodd i'r Panel Dinasyddion Rhanbarthol (1.2 yn yr adroddiad)	
	<b>Cytunwyd, ar y cam hwn, y teimlwyd nad oedd yn briodol i aelodau'r cynulliad fod yn bresennol; Gallai aelodau'r cynulliad drafod unrhyw faterion ag Aelodau Cabinet</b>	
2.2b	<b>Cytunwyd y dylid derbyn diweddariad ynghylch Achos Busnes Rhanbarthol WCCIS yn ogystal â buddion y system mewn cyfarfod yn y dyfodol.</b>	<b>Diweddariad WCCIS i'w ddarparu mewn cyfarfod yn y dyfodol Templed adrodd i'w lunio</b>
2.2c	Gwnaed cais am lunio templed adrodd i roi golwg clir o gynnydd ym mhob maes/ffrwd waith fel ymagwedd rheoli perfformiad (gan gynnwys asesiad CAG), gyd allai o naratif fel y gall y BPRh adolygu cynnydd yn haws.	
2.2d	Nododd AD fod llawer iawn o gynnydd wedi'i wneud ym maes Gofal Cymdeithasol i Oedolion; Mae angen i Fae'r Gorllewin sicrhau ein bod yn darparu gofal digonol i blant a phobl ifanc hefyd gan y gallai hyn gael ei gynnwys mewn agenda cyfarfod yn y dyfodol.	<b>SH i gysylltu â'r Bwrdd Comisiynu PPI a phenaethiaid y Gwasanaethau Plant am</b>

### 3 Y Diweddaraf am Gyllid y CGI gan gynnwys CGI 2016-17 a'r GCT

- 3.1 Aeth SH drwy'r adroddiad diweddaraf am gyllid
- 3.2 **Cytunwyd y byddai'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cymeradwyo pedwar cynllun Anableddau Dysgu ac anghenion cymhleth ychwanegol y CGI, yn ogystal â'r rhestr o gynlluniau CGI a ariennir gan ail gyfran y CGI.**

### 4 Y cynnydd o ran Asesiad Poblogaeth (AP) BGn

- 4.1 Aeth Sara Hayes (SHay) â'r bwrdd drwy adroddiad AP BGn, a oedd yn cynnwys yr is-grwpiau sy'n rhan o Grŵp Llywio'r Asesiad Poblogaeth a'r gwaith cynnwys sy'n cael ei wneud gan Miller Research, y bydd eu canfyddiadau'n darparu rhan sylweddol o ran cynnwys yr AP. Roedd hyn yn cysylltu â'r gwaith cynnwys o ran y 3 Asesiad Lles a gynhaliwyd ar gyfer y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.
- 4.2 Roedd JR yn awyddus i gael mwy o eglurder ynghylch sut mae'r gwaith hwn yn helpu unigolion a'r hyn a fydd yn dilyn ar ôl yr adroddiad.  
Eglurodd SHay y bydd y Grŵp Cynnwys a Chyfathrebu'n adolygu adroddiad Miller, a thrwy nodi materion gallwn helpu unigolion.  
Bydd y gwaith a wnaed hyn yn hyn yn cyfeirio pob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o ran anghenion iechyd a gofal cymdeithasol.  
Bydd yr AP yn cyfeirio bwriadau comisiynu yn y dyfodol.
- 4.3 **Gwnaed cais i gynnwys adroddiad am y camau nesaf a'r canlyniadau ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf ym mis Ionawr.**

*Gadawodd SP y cyfarfod*

**Camau nesaf a chanlyniadau'r AP i'w hadrodd yn ôl i'r BPRh ym mis Ionawr.**

### 5 Cyflwyniad ar Gynllunio Gofal Rhagweledol

Ymunodd Vicky Warner (VW) â'r cyfarfod

- 5.1 Cyflwynodd VW y cyflwyniad ar Ofal Rhagweledol i'r bwrdd.
- 5.2 Cytunwyd y bydd y Grŵp Llywio GRh yn mapio llwybrau pobl i'w cydweddu â derbyniadau i'r ysbyty er mwyn gweld a yw'r cynllun gofal wedi helpu i leihau derbyniadau ar gyfer yr unigolyn hwnnw yn y dyfodol. Dyluniwyd Gofal Rhagweledol i helpu pobl i gynnal eu hannibyniaeth a'r diffiniad oedd y bobl ddiamddiffyn hynny y gallwn weithio gyda nhw (os ydynt am i ni wneud hynny). Bydd timau'n canolbwyntio ar "y rhai y maent yn pryderu mwyaf amdanynt" yn erbyn cyfres o feini prawf.
- 5.3 Nodwyd bod staff clinigol proffesiynol wedi'u rhyddhau i gefnogi'r ymagwedd GRh er bod rhai effeithiau ar niferoedd mewn rhai

timau cymunedol. Bu llai o gyswllt heb ei drefnu â'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol o ganlyniad i'r model.

- 5.4 Roedd y camau nesaf yn cynnwys gweithio'n agosach â'r trydydd sector; Nododd AC y byddai'r trydydd sector yn hapus i weithio'n agosach gyda BI ac ALI mewn perthynas â gofal rhagweledol. Hefyd i gyflwyno'r model i'r 8 rhwydwaith clwstwr sy'n weddill.
- 5.5 Nododd AD fod y ffaith fod y model eisoes yn dangos buddion amlwg yn deyrnged i'r partneriaid sydd ynghlwm wrth y gwaith. Roedd cwestiynau a thrafodaeth yn cynnwys a allai pobl hunanatyfeirio ynghyd â gwerth cynnig 'asesiad gofal ac adolygiad iechyd yn y cartref ('ymagwedd system gyfan') i'r bobl hynny sy'n dod drwy'r 'broses' cynllunio gofal rhagweledol.

## **6 Trosolwg ac Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd (IFSS) 2015-2016**

- 6.1 Esboniodd Nicola Echanis (NE) mai diben yr adroddiad oedd cael cymeradwyaeth Adroddiad Blynyddol yr IFSS gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a rhoddodd gefndir y gwaith a wnaed gan yr IFSS.
- 6.2 Aeth David Wright (DW) drwy ystadegau'r IFSS ar hyfforddiant, monitro a gwerthuso, gwella arfer a'r gwaith dwys gyda theuluoedd a wneir gan yr IFSS.
- 6.3 Ceisiwyd eglurhad ar sut caiff plant hŷn â phroblemau iechyd meddwl eu hatgyfeirio. Atgyfeirir plant i wasanaethau CAMHS os oes angen ond mae'r IFSS hefyd yn sicrhau bod gan blant ddigon o gefnogaeth gan arbenigedd cydweithwyr yn y rhanbarth.
- 6.4 Nododd PR yr ymddengys fod y nifer sy'n dewis cael hyfforddiant gan gydweithwyr y BI yn isel. Nododd DW fod cydweithwyr o'r BI yn dilyn hyfforddiant ac y gellir darparu dadansoddiad llawn o staff y BI sydd wedi'u hyfforddi.
- 6.5 Esboniodd NE, oherwydd dwyster y gwaith gyda theuluoedd, bydd gweithiwr yn gweithio gydag un teulu ar y tro.
- 6.6 Gofynnwyd a ellid darparu dadansoddiad o gynilion plant nad ydynt yn cael eu derbyn i'r system yn yr adroddiad nesaf.
- 6.7 Gofynnwyd sut caiff plant sy'n ddibynnol ar alcohol eu cefnogi a sut i'w atal. Esboniodd NE yn anffodus, fod cynnydd yn nifer y plant ag anghenion cymhleth, ac mae ysgolion prif ffrwd yn gorfod ymdrin â mwy o achosion gan nad oes digon o leoedd mewn unedau arbenigol. Mae ysgolion yn mynd i'r afael â'r materion hyn gyda chymorth y Bwrdd Iechyd.

**Dadansoddiad o gynilion a dangos gwerth am arian y plant nad ydynt yn cael eu derbyn i'r 'system' i'w cynnwys yn yr adroddiad**

- 6.8 **Cytunwyd i gymeradwyo Adroddiad Blynyddol 2015-2016**  
 6.9 **Cytunwyd y dylai adroddiad gael ei gyflwyno yn y dyfodol i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol cyn mis Ebrill 2017**

*Gadawodd RS y cyfarfod a chymerodd AD y gadair  
 Gadawodd NE a DW y cyfarfod hefyd*

## 7 Egwyddorion y Fframwaith Atal

- 7.1 Aeth SHay drwy'r adroddiad gyda'r bwrdd  
 7.2 Cytunwyd y dylid cefnogi'r egwyddorion yn yr adroddiad a theimlwyd y dylai ddangos yn fwy clir sut caiff cysylltiadau â strategaethau eraill megis Gofal Iechyd Darbodus eu gwneud a sut mae'r egwyddorion hyn yn ategu blaenoriaethau polisi ac egwyddorion presennol.  
 7.3 **Cytunwyd y dylid mabwysiadu'r egwyddorion a amlygwyd yn yr adroddiad ar sail BGN, ar yr amod bod ymagwedd gydlynol ar draws y rhanbarth**  
 7.4 **Cytunwyd y dylai'r adroddiad fynd yn ôl i'r sefydliadau partner a chael ei gymeradwyo gan Gabinetau a BI.**  
 7.5 **Cytunwyd y dylai sefydliadau partner nodi lle caiff yr egwyddorion eu gwreiddio, yn ddelfrydol o fewn cynllunio a chomisiynu gwasanaethau**

## 8 Unrhyw Fater Arall

- 8.1 Oherwydd maint y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, awgrymwyd, lle bynnag y bo modd, y dylai eitemau 'unrhyw fater arall' nad ydynt wedi'u cynnwys ar yr agenda gael eu hanfon cyn y cyfarfod.  
 8.2 Awgrymwyd ymhellach os oes eitemau penodol ar yr agenda, y gallai cydweithwyr gael eu gwahodd i fynd yn rhinwedd eu rôl fel ymgynghorwyr arbenigol (Dylid ceisio cytundeb ymlaen llaw) - **cytunwyd.**

**Darparu eitemau UFA ymlaen llaw i Swyddfa Rhaglen BGN**

Daeth AD â'r cyfarfod i ben drwy ddiolch i'r rhai a oedd yn bresennol a dymuno cyfarchion y tymor i aelodau'r bwrdd a oedd yn bresennol.

## 7 Dyddiad y cyfarfod nesaf

24 Ionawr 2017  
 10.00 – 12.00  
 Swyddfeydd Dinesig Pen-y-bont ar Ogwr

*Daeth y cyfarfod i ben am 12.30pm*